Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

08.09.23

Annwyl riant / warcheidwad,

Mae wedi bod yn bleser croesawi eich plentyn yn ôl yr wythnos hon! Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni/gwarcheidwaid wedi chwarae rhan allweddol yn llwyddiannau'r ysgol ac rydw i'n awyddus i weld y bartneriaeth yma yn parhau ac yn cryfhau dros y blynyddoedd nesaf. Os oes unrhyw fater rydych am ei drafod, neu fod awgrym gennych i wella unrhyw agwedd o fywyd yr ysgol, cofiwch ein bod yn awyddus i glywed gennych.

Byddem yn croesawu gwirfoddolwyr newydd i ymuno â fforwm llais ein rhieni sydd yn cyfarfod bob hanner tymor yn Llyfrgell yr ysgol. Cysylltwch â Mrs Emma Howells am fanylion pellach: HowellsE32@hwbcymru.net neu rhowch alwad i mi? Yn y cyfamser, hoffwn dynnu'ch sylw at y materion pwysig isod ar ddechrau'r flwyddyn:

**1. Canlyniadau arholiadau allanol:**

Unwaith eto mae ein canlyniadau TGAU a Safon Uwch yn gryf iawn, gyda nifer o ddisgyblion yn rhagori. Rydym wedi sefydlu traddodiad cryf o lwyddiant academaidd yn yr ysgol sy'n dyst i ymdrechion cyson y disgyblion a'r staff gyda'ch cefnogaeth werthfawr chi fel rhieni/gwarcheidwaid. Dymunwn yn dda i'r disgyblion sydd yn ein gadael ar ddiwedd Bl.13 ac 11eg a braf yw croesawu criw mawr o ddisgyblion bl.12 yn ôl i'r 6ed eleni - maent wedi creu argraff wych yn barod yr wythnos hon!

**2. Dyddiadau allweddol:**

**Dyddiadau'r tymor a HMS athrawon:**

Gweler y wybodaeth ar ein safle drwy'r ddolen isod
**https://www.bryntawe.swansea.sch.uk/calendar_cy.php#terms23-24**

**Nosweithiau rhieni (byddwn yn rhannu trefniadau pendant gyda chi yn agosach at y noson):**

Gweler y wybodaeth ar ein safle drwy'r ddolen isod:
**https://www.bryntawe.swansea.sch.uk/calendar_cy.php#parents**

**Dyddiadau Arholiadau allanol Blynyddoedd 10, 11, 12 a 13eg:**

Bydd arholiadau allanol yn digwydd yn ystod y cyfnodau a nodir isod. Mae presenoldeb disgyblion 10-13 yn ystod y cyfnodau hyn a thrwy gydol y flwyddyn yn hanfodol gan fod asesiadau diarholiad (e.e. gwaith cwrs) hefyd yn cael eu cyflawni, sy'n allweddol ar gyfer llwyddiant eich plentyn.

| | |
|---|---|
| Arholiadau Tachwedd 2023 | 06.11.23 - 15.11.23 |
| Arholiadau Ionawr 2024 | 10.1.24 - 25.1.24 |
| Arholiadau Haf 2024 | 08.5.24 - 26.6.24 |

**3. Staffio:**

Pleser yw croesawu'r staff canlynol i Fryn Tawe eleni: Mrs Sarah Swanson a Miss Ailish Saer i'r adran Saesneg; Mr Chris Nettle fel Pennaeth yr adran Ffiseg a Miss Ffion Evans i'r adran Wyddoniaeth; Mrs Bethan Harkin fel Pennaeth Drama; Mrs Carys Bryant i'r adran Addysg Gorfforol; Mr Steffan Lloyd i'r adran Hanes a Dyniaethau; Mr Steffan Davies i'r adran DT; Miss Rebecca Bassett fel darpar athro a chynorthwyydd a Mrs Sera Cairns fel cynorthwyydd yn yr Uned Iaith a Lleferydd.

**4. Polisi Ffonau Symudol:**

Mae'r newid i'r polisi ffonau wedi profi i fod yn llwyddiant llynedd. Er hyn, mae'r pryder am orddefnydd a'r amser y mae disgyblion yn treulio o flaen sgrin ffôn yn parhau yn bryder gynyddol oherwydd yr effaith negyddol ar ddysgu a

lles. Mae ffonau symudol yn tynnu sylw dysgwyr yn ystod y diwrnod ysgol. Mae'n hanfodol bwysig bod dysgwyr yn gallu canolbwyntio'n llawn ar eu dysgu yn ystod gwersi ac yn treulio amser o ansawdd yn cymdeithasu gyda'u gilydd yn eu hamser rhydd. Mae manylion y polisi newydd ar gael ar ein safwe yma: Polisi Ffôn Bryn Tawe . Mae cefnogaeth rhieni gyda hyn yn hanfodol bwysig ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Mae llawer o astudiaethau i effeithiau negyddol amser sgrin ar iechyd meddwl, lles a datblygiad ymenyddol pobl ifanc a theimlwn ei fod yn ddyletswydd arnom i weithredu'r polisi pwysig hyn er mwyn ceisio cefnogi lles a dysgu pob disgybl.

5. **'SatchelOne'**

Mae'r defnydd o'r Ap 'SatchelOne' gan **rieni** a **disgyblion** yn holl bwysig - mae'n cynnwys manylion gwaith cartref eich plentyn, amserlen dyddiol, pwyntiau clod a negeseuon pwysig. Eleni rydym wedi ychwanegu y defnydd o bwyntiau ymddygiad i mewn i'r Ap, er mwyn gwella ein cyfathrebu ymhellach gyda'n rhieni. **Os nad oes mynediad gyda chi neu eich plentyn i'r Ap - gofynnwch i diwtor personol eich plentyn ar ddechrau'r tymor am y manylion mewngofnodi, neu cysylltwch gyda Mr Mark Bridgens: BridgensM@hwbcymru.net .**

6. **Ymddangosiad:**

Hoffwn eich atgoffa am ein disgwyliadau o ran ymddangosiad ein disgyblion, sydd yn destun balchder i ni ym Mryn Tawe. Mae ein polisi gwisg i'w weld yn llawn ar ein safwe ar y ddolen yma: Polisi gwisg Ysgol Bryn Tawe . Gwethfawrogwn gefnogaeth pob rhiant i sicrhau bod eich plentyn yn cwrdd â'r disgwyliadau yma ac yn benodol am y rheol ynglyn â gemwaith - does **dim caniatâd gan ddisgyblion 7-11 i wisgo tlysau yn eu trwyn**. Mae gwisgoedd ail law ar gael i'w casglu o'r ysgol - cysylltwch gyda Mrs Eirian Leonard (Leonard18@hwbcymru.net) i wneud trefniadau.

7. **Ffurflen casglu data**:

Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod y wybodaeth fwyaf cyfredol gennym ar gyfer pob un o'n disgyblion, Gofynnwn i bob rhiant felly i gwblhau'r ffurflen casglu data yma: https://forms.office.com/e/0fXzxSan1M os nad ydych yn barod wedi gwneud eleni. Mae'r ffurflen yn darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol sydd angen arnom i gefnogi dysgu a lles ein disgyblion. Yn ogystal, byddwn yn hyrwyddo profiadau a llwyddiannau disgyblion drwy gyhoeddi hanesion a lluniau disgyblion ar ein gwefan, gwefannau cymdeithasol yr ysgol neu yn eu cyhoeddi yn y wasg yn achlysurol. Gofynnwn i bob rhiant roi caniatâd, neu beidio, yn ôl eich dymuniad, i ni ddefnyddio lluniau o'ch plentyn wrth gyfrannu at weithgareddau'r ysgol.

8. **Offer ysgol:**

Gobeithio'ch bod wedi llwyddo i sicrhau bod gan eich plentyn yr offer angenrheidiol ar gyfer dysgu yn yr ysgol bob dydd, gan gynnwys offer Mathemateg. Mae'r rhestr gyfredol ar gael fan hyn: Barod i ddysgu
Os oes unrhyw bryder gennych ynglŷn â hyn, plis cysylltwch gyda ni er mwyn gallu cefnogi.

9. **Absenoldeb:**

Rydym yn annog pob rhiant/gwarcheidwad **yn gryf i beidio â threfnu gwyliau teuluol yn ystod y tymor**, gan ei fod yn cael effaith negyddol ar addysg disgyblion. Heb ganiatâd, fe fydd absenoldeb o'r fath yn cael ei drin fel absenoldeb heb awdurdod. Gweler y polisi yma: Polisi Presenoldeb

Edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus unwaith eto ym Mryn Tawe ac i gydweithio gyda chi gyd i'r dyfodol!

Yn ddiffuant,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies